**LC650**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2003**

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio'r cyfnod o amser sydd gan fferyllwyr i ymateb i gwynion a wneir gan unrhyw berson y maent wedi rhoi gwasanaeth fferyllol iddo. Caiff yr amser a ganiateir i gydnabod cwynion ei leihau o 3 diwrnod i 2 ddiwrnod, tra caiff yr amser a ganiateir i roi i achwynydd grynodeb o ymchwiliadau a chasgliadau ei gynyddu o 10 i 20 diwrnod.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r rheoliadau hyn, llwyddodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor i nodi nifer o fân bwyntiau sydd bellach wedi cael eu cywiro. Felly, nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 11.5.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

11 Mawrth 2003